CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 10, 2019

www.cyngorllanelltyd.cymru

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 10, 2019 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), John Hughes, Gethin Williams Geraint Rowlands, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Elfed ap Gomer. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams.

2. Datgan diddordeb:

Mae Geraint Rowlands a Llinos Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 8.a.1.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 12, 2019

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 12, 2019

Eitem 11.c; Eitem 4. Eitem 11.a. Derbyniwyd galwad ffôn (11/11/2019) oddi wrth Mr Ieuan Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2DW. 0300 0653 768). Roedd yn ymddiheuro am ddim cysylltu â ni; nid oedd wedi cael ein llythyr mewn pryd; roedd ein llythyr wedi ei anfon i swyddfa yn Dolgellau. Dwedodd does dim i'w adrodd oherwydd mae'r mater yn un gyfreithiol.

Eitem 9.a. Llythyr ateb (19/11/2019) yn rhoi gwybod ni fydd Swyddog o'r Adran yn bresennol yn ein cyfarfod ond yn fodlon dod yn y flwyddyn newydd. Mae'r Swyddog yn y broses o gasglu gwybodaeth ar gostau a dyletswyddau gyda'r bwriad o anfon hwy ymlaen atom dechrau Rhagfyr i ni ystyried y mater ymhellach.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau â Chyngor Cymuned Arthog i gael eu sylwadau ar gymryd cyfrifoldeb o lefydd chwarae.

Eitem 11.b. Llythyr (25/11/2019) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri angen manylion Mr Causer a chopi o'r pris cafwyd gan Gwasanaeth Tir a Choed i wneud y gwaith clirio.

Anfonwyd y manylion iddynt (26/11/2019).

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/11/2019) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2020 / 2021. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 24, 2020.

Praesept 2018 /2019 - £7,500.00. Praesept 2019 /2020 - £7,500.00.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Ionawr, 2020.

b. Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2020-21. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 o dan adran 137(1) ac (3) £8.32, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.32 x 386 = £3,211.52.

c. Siec (27/11/2019) am £600 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Mair Jones, claddedigaeth bellach.

ch. Bil (4/12/2019) am £470.00 oddi wrth Mr John A. Owen at ail agor bedd ar gyfer gwasanaeth yn y fynwent ar 27/1/2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Bil (4/12/2019) am £1,347.00 oddi wrth A.M. Ashton. Mae'r taliad am wneud gwaith cynnal a chadw'r fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2019: £10,605.20.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/65/L359. Trosi capel yn annedd preswyl marchnad agored. Capel Coffa, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (22/11/2019).

2. NP5/65/AD363. Gosod panel dehongli 1.1m x 0.9m. Coed Garth Gell, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Llythyr (22/11/2019) yn ymwneud â Tai Teg - Cofrestr Tai Fforddiadwy. Cofrestr tai fforddiadwy ar-lein yw Tai Teg sy'n gynnig cartref fforddiadwy i bobl leol am bris llai na gwerth y farchnad. Nôd y gofrestr yw casglu gwybodaeth am eiddo fforddiadwy yng ngogledd Cymru. Mae'r wybodaeth i'r cyhoedd ar www.taiteg.org.uk Amgáu mae taflenni yn rhoi gwahanol gynlluniau sydd ar gael.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn holi os oes biniau halen angen eu llenwi.

Penderfynwyd rhoi gwybod mae angen llenwi bid sydd wrth Pont Cwm Mynach.

b. Llythyr (25/11/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith tyllu a newid colofnau stryd ar y ffordd A496 yn Bontddu.

ch. Llythyr (9/12/2019) oddi wrth Adran Eisteddfod yr Urdd, Llanuwchllyn. Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych yn Ninbych ar Fai 25-23, 2020. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Llythyr (3/12/2019) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod mae Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn trefnu sgubo ffyrdd Cwm Mynach a Moel Ispri. Trefnwyd cyfarfod rhwng Elfed ap Gomer a Swyddog o Priffyrdd gan Peredur Jenkins.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo, ac agor ffosydd ar ffordd Cwm Hirgwm.

c. Mae Cyngor Gwynedd yn paratoi cyllideb am 2020 - 2021 dan amgylchiadau ansicr.

11. Materion Brys

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg. Anfonwyd copi i'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r Rhaglen.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen archwilio coeden masarn sydd o flaen stad Bro Cymer, Llanelltyd. Mae canghennau'r goeden wedi bod yn torri a disgyn yn ddiweddar.

c. Nifer o gynghorwyr i'w ethol yw 9. Mae gan y Cyngor un sedd wag.